------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 3 Gorffennaf 2019

Amser y cyfarfod: 13.30

# 220(v3)

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

Ni ddewiswyd unrhyw Gwestiynau Amserol.

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod - Rheoli'r Gwasanaeth Iechyd

(30 munud)

**NDM7102** Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil ar reoli'r gwasanaeth iechyd.

2. Yn nodi mai diben y Bil fyddai:

a) sefydlu corff proffesiynol i reolwyr y GIG yng Nghymru i bennu cymwyseddau proffesiynol craidd ar gyfer rheolwyr ar bob lefel, sicrhau bod rhaglenni hyfforddiant cychwynnol priodol a rhaglenni datblygiad proffesiynol parhaus yn cael eu datblygu, a gyda'r pŵer i gymryd sancsiynau yn erbyn rheolwyr am berfformiad gwael neu anniogel;

b) sicrhau gwir annibyniaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru;

c) gosod dyletswydd gonestrwydd cyfreithiol i fod yn berthnasol i bob gweithiwr iechyd proffesiynol gan gynnwys rheolwyr; a

d) sefydlu system gwyno ddilys, gadarn a thryloyw sy'n cefnogi rhieni a theuluoedd.

## 6 Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau – Datblygu Trafnidiaeth Cymru yn y dyfodol

(60 munud)

**NDM7108** Russell George (Sir Drefaldwyn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar ei Ymchwiliad: Datblygu Trafnidiaeth Cymru yn y dyfodol – a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Mai 2019.

Nodyn: Gosodwyd yr ymateb gan Lywodraeth Cymru ar 12 Mehefin 2019. Gosodwyd ymateb Trafnidiaeth Cymru ar 17 Mehefin 2019.

## 7 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg – Bagloriaeth y Dyfodol: Statws cymhwyster Bagloriaeth Cymru

(60 munud)

**NDM7112** Lynne Neagle (Torfaen)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg – Bagloriaeth y Dyfodol: Statws cymhwyster Bagloriaeth Cymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Ebrill 2019.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru ar 26 Mehefin 2019.

## 8 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – Colli Golwg

(30 munud)

**NDM7110** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi:

a) bod 111,000 o bobl yng Nghymru, ar hyn o bryd, yn byw gyda nam ar eu golwg;

b) y rhagwelir y bydd nifer y bobl sydd wedi colli eu golwg yn cynyddu 32 y cant erbyn 2030 ac yn dyblu erbyn 2050.

2. Yn croesawu cyflwyno mesurau perfformiad newydd ar gyfer cleifion gofal llygaid.

3. Yn gresynu bod 1 o bob 3 chlaf y tybir eu bod mewn perygl mawr o golli eu golwg yn aros yn hwy na'u targed o ran amser aros ar gyfer apwyntiadau offthalmoleg.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud y canlynol:

a) bod yn gadarn wrth ddwyn byrddau iechyd i gyfrif am eu methiant i gyrraedd targedau amseroedd aros gofal llygaid a rhoi ei mesurau gofal llygaid ar waith;

b) datblygu cynllun gweithlu cenedlaethol ar gyfer offthalmoleg i sicrhau bod digon o gapasiti mewn clinigau llygaid i ddiwallu anghenion pobl Cymru nawr ac yn y dyfodol;

c) gwella'r broses o gasglu, dadansoddi a dysgu o gwynion a digwyddiadau difrifol lle mae pobl wedi colli eu golwg;

d) cyhoeddi amserlen, ar frys, ar gyfer datblygu a chyhoeddi cynllun cyflawni newydd ar gyfer gofal llygaid yng Nghymru.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

Gwelliant 1 – Rebecca Evans (Gwyr)

Dileu popeth ar ôl is-bwynt 4a a rhoi yn ei le:

bwrw ymlaen â chyhoeddi a gweithredu’r cynllun gweithlu cenedlaethol ar gyfer yr holl sector gofal llygaid a chyhoeddi Cylchlythyr Iechyd Cymru i sicrhau bod digon

o gapasiti mewn clinigau llygaid i ddiwallu anghenion pobl Cymru yn awr ac yn y dyfodol;

gwella'r broses o gasglu, dadansoddi a dysgu o gwynion a digwyddiadau difrifol lle mae pobl wedi colli eu golwg;

parhau i fwrw ymlaen â’r gwaith o weithredu’r cynllun cyflawni ar gyfer gofal llygaid yn ei flwyddyn olaf a nodi y bydd y Prif Gynghorydd Optometrig yn gweithio gyda rhanddeiliaid trwy Gymru yn ystod y misoedd nesaf i gytuno ar y camau nesaf.

Cynllun cyflawni ar gyfer gofal iechyd llygaid 2013 i 2018

## 9 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Ul uchelgais y strategaeth Cymraeg 2050 o gyrraedd 1 filiwn o siaradwyr Cymraeg mewn cenhedlaeth

(30 munud)

**NDM7111** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r gefnogaeth drawsbleidiol o fewn y Cynulliad i uchelgais y strategaeth Cymraeg 2050 o gyrraedd 1 filiwn o siaradwyr Cymraeg mewn cenhedlaeth.

2. Yn cydnabod bod llwyddiant y strategaeth yn ddibynnol, yn rhannol, ar:

a) creu mwy o gyfleoedd i bobl ddefnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg yn y gweithle yn ogystal ag yn y gymuned;

b) argyhoeddi busnesau bod mantais fasnachol o ran hyrwyddo hunaniaeth ddwyieithog;

c) sicrhau cydbwysedd a hyblygrwydd rhwng camau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol i gyflawni hyn, a chydnabod bod 99 y cant o fentrau Cymru yn fusnesau micro, bach, neu ganolig o ran maint;

d) nodi a darparu gwerth am arian drwy gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle yn hytrach na chyflwyno gofynion nad ydynt yn cyflawni hyn ac nad ydynt yn cael eu hystyried yn flaenoriaeth gan siaradwyr Cymraeg.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad drwy ddatganiadau llafar bob chwe mis ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â Cymraeg 2050.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad cyn diwedd 2019 ar effeithiolrwydd ei gwaith hyrwyddo presennol o'r Gymraeg i fusnesau, ar wahân i waith Comisiynydd y Gymraeg.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i benodi rhwydwaith o hyrwyddwyr busnes Cymraeg i hybu defnyddio'r Gymraeg gan fusnesau micro, bach a chanolig eu maint.

6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried diwygio rôl Comisiynydd y Gymraeg ymhellach o ran caniatau i ymchwiliadau gael eu cynnal i honiadau siaradwyr Cymraeg a'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg mewn perthynas â thorri eu hawliau iaith.

Cymraeg 2050: strategaeth iaith Gymraeg

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 –** Rebecca Evans (Gwyr)

Dileu pwyntiau 2 – 6 a rhoi yn eu lle:

Yn cydnabod bod tair elfen i strategaeth Cymraeg 2050 a fydd yn ein helpu i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg, sef:

a) cynyddu nifer y siaradwyr drwy'r rhaglen Cymraeg i Blant / Cymraeg for Kids, y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg gwell, a'r ymagwedd newydd tuag at addysgu Cymraeg drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol;

b) cynyddu'r defnydd dyddiol o'r iaith mewn gweithleoedd, busnesau ac yn y gymuned;

c) darparu seilwaith cadarn ar gyfer pob cam gweithredu gan gynnwys technoleg, seilwaith ieithyddol, a sicrhau cefnogaeth y cyhoedd.

Yn dathlu bod Llywodraeth Cymru, ers lansio Cymraeg 2050, wedi gwneud cynnydd sylweddol yn y meysydd a ganlyn:

a) cynyddu nifer y Cylchoedd Meithrin a Chylchoedd Ti a Fi er mwyn i fwy o blant gael cychwyn ar eu taith i addysg cyfrwng Cymraeg;

b) symud o asesu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg i greu'r galw amdani, er mwyn cynyddu nifer y siaradwyr drwy'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg;

c) lansio Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg newydd sy'n nodi gweledigaeth i sicrhau bod y Gymraeg ar gael yn hawdd ym maes technoleg;

d) cyllido'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ddarparu'r cynllun Cymraeg Gwaith / Work Welsh er mwyn datblygu sgiliau Cymraeg gweithwyr mewn sectorau a dargedir, gan gynnwys y sector prentisiaethau;

e) darparu bron £60 miliwn o gyllid cyfalaf ar gyfer y blynyddoedd cynnar, addysg ac ar gyfer ailwampio Neuadd Pantycelyn a chyfleusterau'r Urdd yng Nglan-llyn a Llangrannog;

f) cyllido 14 Swyddog Busnes ledled Cymru i gynnig cyngor a dulliau ymarferol i helpu busnesau i ddefnyddio mwy o Gymraeg. Caiff llinell gymorth ei lansio'n fuan i roi gwybodaeth am y Gymraeg, i gyfeirio pobl at gymorth gyda'r Gymraeg, ac i ddarparu cyfieithiadau cryno;

Yn dathlu bod Llywodraeth Cymru wedi cyfrannu'n frwdfrydig at Flwyddyn Ryngwladol y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Ieithoedd Cynhenid, a hynny fel platfform i ddathlu Cymru fel cenedl ddwyieithog agored.

Cynllun gweithredu technoleg Cymraeg

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliannau 2 a 3 eu dad-ddethol]*

**Gwelliant 2 - Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn cydnabod bod gweithredu dyhead y strategaeth yn gofyn am gynllunio strategol a gweithredu ymarferol bwriadus ym mhob maes, yn enwedig mewn perthynas ag addysg, datblygu economaidd, datblygu cymunedol, statws ac isadeiledd y Gymraeg, y gweithle, a'r teulu.

**Gwelliant 3 - Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

Dileu pwynt 6 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno a gweithredu amserlen i ganiatáu Comisiynydd y Gymraeg i osod safonau'r Gymraeg ac ehangu hawliau i ddefnyddio'r iaith ym maes cymdeithasau tai, dŵr, gwasanaethau post, trafnidiaeth, ynni, telathrebu ynghyd ag ychwanegu cyrff newydd at reoliadau a basiwyd eisoes.

## 10 Cyfnod pleidleisio

## 11 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM7067** Jack Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)

Camau at Wleidyddiaeth Garedicach: Cynllun ar gyfer creu cymunedau caredicach ledled Cymru

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 9 Gorffennaf 2019

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 26/06/2019 i'w hateb ar 03/07/2019

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Y Gweinidog Addysg

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

1 OAQ54160

Tynnwyd yn ôl

**(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut mae ymwybyddiaeth am faterion iechyd meddwl yn cael ei adlewyrchu yn y cwricwlwm newydd?

**Leanne Wood** *Rhondda*

2 OAQ54178

**(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod ysgolion yn gallu darparu addysg addas i bawb?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

3 OAQ54143

**(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau i ddathlu 70 mlynedd ers addysg cyfrwng Cymraeg yn y Llynfi?

**Caroline Jones** *Gorllewin De Cymru*

4 OAQ54171

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith awtomeiddio ar addysg yng Nghymru?

**Mick Antoniw** *Pontypridd*

5 OAQ54164

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am achrediadau cyflog byw yn y sector addysg yng Nghymru?

**David Melding** *Canol De Cymru*

6 OAQ54176

**(e)**

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i addysgu disgyblion am fanteision teithio llesol drwy'r system addysg?

**Alun Davies** *Blaenau Gwent*

**7** OAQ54155

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hawl i gael addysg cyfrwng Cymraeg?

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

**8** OAQ54172

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif gan Lywodraeth Cymru yn Sir Gaerfyrddin?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

**9** OAQ54170

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi sefydliadau addysg uwch?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

**10** OAQ54153

**(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi plant gydag anghenion dysgu ychwanegol i mewn i addysg ôl-16?

**Mandy Jones** *Gogledd Cymru*

**11** OAQ54166

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fynediad at addysg yng Ngogledd Cymru?

**Lynne Neagle** *Torfaen*

**12** OAQ54181

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith sy'n cael ei wneud i leihau costau'r diwrnod ysgol i deuluoedd?

# Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**David J. Rowlands** *Dwyrain De Cymru*

**1** OAQ54158

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r gweithdrefnau ar gyfer mabwysiadu gorfodol, yng ngoleuni'r cynnydd diweddar yn nifer yr achosion?

**Neil Hamilton** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

2 OAQ54167

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymdrechion diweddar i ategu gofal sylfaenol gyda chymorth gan fferyllfeydd?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

3 OAQ54183

**(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y broses chwythu'r chwiban ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

4 OAQ54163

**(e)**

Pa gamau pellach y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd yng Nghymru?

**David Rees** *Aberafan*

5 OAQ54184

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella gwasanaethau iechyd cymunedol?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

6 OAQ54146

Tynnwyd yn ôl

**(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau iechyd meddwl i oedolion yn y gogledd?

**Mick Antoniw** *Pontypridd*

7 OAQ54152

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu gwasanaethau i fynd i'r afael â chaethiwed i gamblo yng Nghymru?

**Nick Ramsay** *Mynwy*

8 OAQ54161

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran adeiladu Ysbyty Athrofaol y Grange?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

**9** OAQ54185

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer yr heintiau sy'n gallu gwrthsefyll gwrthfiotigau a gofnodwyd yn ystod y 12 mis diwethaf sydd ar gael?

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

**10** OAQ54179

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am amseroedd ymateb ambiwlansys dros y tair blynedd diwethaf?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

**11** OAQ54156

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fynediad at gyfleusterau'r GIG yng ngogledd Cymru?

**Lynne Neagle** *Torfaen*

**12** OAQ54180

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod y technolegau iechyd diweddaraf ar gael yng Nghymru?